Cyfarfod Bwrdd Cynghori Taith
Dydd Iau 24 Hydref 2024, 10.30am – 12.30pm
Cyfarfod a gynhaliwyd dros Teams

Rhestr o'r bobl a fu'n bresennol	
Yn bresennol:	**(KW)** Kirsty Williams, Cadeirydd y Bwrdd Cynghori **(AMG)** Anne Marie Graham **(CL)** Chelsea Ljutić **(HP)** Hannah Pudner **(LVE)** Lem van Eupen **(NA)** Nabil Ali **(SH)** Sian Hughes
Dirprwyon:	**(APE)** Angharad Penny Evans
Ymddiheuriadau:	**(HB)** Hayley Bendle **(RE)** Rhian Edwards
Gweithrediaeth Rhaglen Taith (TPE):	**(SG)** Susana Galván **(EM)** Dr Elid Morris **(EB)** Ellie Bevan
Ysgrifenyddiaeth gynorthwyol:	**(DJ)** Delyth Johnson

Cofnodion		
Eitem ar yr Agenda	**Eitem**	**Camau Gweithredu (A) Trafodaeth (D)**
1	**Croeso a Chyflwyniadau**	
1.1	Croesawodd **KW** yr holl aelodau i'r cyfarfod a nododd bod Angharad Penny Evans wedi mynychu'r cyfarfod i gynrychioli Zenny Saunders a Llywodraeth Cymru.	
1.2	Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Zenny Saunders, Hayley Bendle a Rhian Edwards. Mae Rhian, Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi Medr, yn aelod newydd o Fwrdd Cynghori Taith a bydd yn cynrychioli Medr ar y Bwrdd wrth iddynt recriwtio am Gyfarwyddwr Profiad Dysgu.	
1.3	Hysbysodd **KW** y Bwrdd Cynghori (AB) fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gefnogi cymryd cofnodion a gofynnodd i aelodau gadw'r swyddogaeth sgwrsio at ddibenion materion gweithredol.	
2	**Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf ar 27 Mehefin 2024**	
2.1	Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod ar 27 Mehefin 2024.	
2.2	Gofynnodd NA am eglurhad ar ddyddiad yr ystadegau a ddarparwyd yn niweddariad cyffredinol Taith (Adran 2). Eglurodd EM/EB mai ystadegau gwirioneddol hyd yma ar 20 Mehefin 2024 oedd y rhain. Bydd troednodyn yn cael ei ychwanegu at y cofnodion i egluro bod yr ystadegau hyn yn wirioneddol ar 20 Mehefin 2024 a bydd dyddiad yr ystadegau a nodwyd yn cael eu hychwanegu at gofnodion cyfarfodydd wrth symud ymlaen.	**DJ**
2	**Taith: Diweddariad cyffredinol**	
2.1	Roedd papur wedi'i ddarparu cyn y cyfarfod yn rhoi diweddariad manwl am waith Taith hyd yn hyn. Cyflwynodd SG ddiweddariad crynhoi yn y cyfarfod a bydd y cyflwyniad yn cael ei rannu â'r Bwrdd ar ôl y cyfarfod:	

3	**Lleoli Taith ar gyfer y dyfodol**	
3.1	Cynhaliwyd trafodaeth, a hwyluswyd gan NA, ar bwysigrwydd strategol lleoli Taith ar gyfer y dyfodol. Rhannwyd tair dogfen i gefnogi'r rhan hon o'r cyfarfod: Papur 3 - Lleoli Taith ar gyfer y dyfodol, Papur 3a - Gwerthusiad Dros Dro Taith, Papur 3b - Asesiad Gwerth am Arian Taith.	
3.2	Darparodd NA grynodeb a gosod y cyd-destun ar gyfer y Du, gan gynnwys bod angen eglurder gan Lywodraeth Cymru ar ddyfodol Taith a chyfnewidiadau ehangach yng nghyd-destun y datblygiadau hyn. Amlygodd NA: - Cynllun Turing: • Bydd y Canghellor yn cyhoeddi faint o gyllid y bydd y cynllun hwn yn cael ei ddyrannu ar gyfer y flwyddyn nesaf (AU, AB ac Ysgolion) yn y Gyllideb yr wythnos nesaf. • Mae'r sector AU yn glir eu bod am i'r cynllun hwn barhau o fewn y senedd nesaf a bydd yn cau yn 2026-27, ar yr un pryd â diwedd rhaglen bresennol Erasmus. • Bu gwerthusiad blwyddyn gyntaf interim o'r cynllun Turing sydd wedi amlygu ei lwyddiannau, yn enwedig o ran lleoliadau rhyngwladol i fyfyrwyr difreintiedig. • Roedd hefyd argymhellion a diffygion difrifol yn y rhaglen, yn enwedig y symiau ariannu a'r weinyddiaeth. • Mae nifer isel o Gymru wedi manteisio ar y cynllun hwn. Bu dwy ysgol yng Nghymru yn llwyddiannus ar gyfer cyllid Turing yn y rownd ddiwethaf ac mae'r sector ieuenctid yn gwbl anghymwys. - Erasmus (2021-2027): • Mae diwedd y rhaglen bresennol ar yr un pryd â diwedd rhaglen Taith. • Mae awydd o fewn llywodraeth y DU i ailosod y berthynas ag Ewrop ac mae'n edrych ar fanteision ail-ymuno â rhaglen Erasmus. • Mae'r Adran Masnach Ryngwladol a'r Adran Addysg yn cynnal ymarfer yn edrych ar strategaeth addysgol newydd gyda ffocws ar allforion addysg a symudedd addysgol. Bydd addysg trawsgenedlaethol yn rhan fawr ohono.	

	• Datblygiadau symudedd ieuenctid – mae cyrchfannau Ewropeaidd yn parhau i fod yn boblogaidd. Mae'r UE yn parhau i fod yn agored i drefniant symudedd ieuenctid pwrpasol gyda llywodraeth y DU. Mae pwysau cost yn parhau i gael effaith (e.e. arbed arian ar fisâu) a dylai unrhyw symudedd ieuenctid yn y dyfodol ystyried mewnfudo a symudedd ieuenctid ar gyfer cyfranogwyr ysgolion ac ieuenctid. I gefnogi'r drafodaeth rhannodd KW uchafbwyntiau'r drafodaeth yn CPG Wales International ar 1 Hydref 2024 a oedd yn canolbwyntio ar ddyfodol symudedd ieuenctid: - Roedd cynrychiolwyr llysgennad yr UE yn y cyfarfod. - Gwelwyd Taith fel rhaglen werthfawr, codwyd cwestiynau am ei ddyfodol. - Rhannodd cydweithwyr Ewropeaidd sut maent yn gweld Taith fel enghraifft o arfer gorau oherwydd hyblygrwydd y rhaglen, sut mae'n cyrraedd grwpiau a sefydliadau llai a heb gynrychiolaeth ddigonol, a rhan y sectorau ysgol uwchradd ac ieuenctid. - Roedd cydnabyddiaeth bod Taith yn wahanol i Erasmus ond bod cyfatebolrwydd rhwng y rhaglenni. - Mae awydd i beidio â cholli buddion unigryw Taith ac o bosib rhedeg rhaglenni Taith ac Erasmus ochr yn ochr â'i gilydd. - Pan fydd cyllidebau'n dynn mae'n bosib y gwelir y rhaglenni hyn yn "braf eu cael" ond ddim yn hanfodol. - Mae awydd ar draws y pleidiau gwleidyddol am fwy o waith yn ymwneud â chynhwysiant a fyddai'n helpu i gyflwyno achos Taith.	
3.3	Cyflwynodd APE ddiweddariad ar ddatblygiadau gwleidyddol diweddar a newidiadau yn Llywodraeth Cymru ar ran ZS: - Penodwyd Prif Weinidog Cymru newydd, Eluned Morgan ers y cyfarfod diwethaf a'i 4 prif flaenoriaeth yw: 1) Iechyd da, Cymru iachach (GIG a Gofal Cymdeithasol). 2) Swyddi gwyrddion a thwf. 3) Cyfleoedd i bob teulu (gwella safonau mewn ysgolion a cholegau, darparu mwy o dai ar gyfer rhentu cymdeithasol a sicrhau bod gan bob teulu gyfle i lwyddo. 4) Cysylltu cymunedau, trawsnewid ein rhwydweithiau teithio.	

	- Mae Gweinidog newydd ar gyfer AB ac AU, Vicky Howells, ac mae Taith yn dod o dan ei phortffolio. Blaenoriaethau'r Gweinidog yw: 1) Cydweithio ar draws y sector, lleihau dyblygu a chystadleuaeth a gweithio gyda'n gilydd 2) Cydweithrediad ar draws y llywodraeth, yn gysylltiedig â blaenoriaethau'r Prif Weinidog, gan wella sgiliau, addysg ac iechyd. 3) Cymuned – o ddysgwyr, ymarferwyr a darparwyr. - Mae'r ffocws ar etholiad 2026 a'r hyn mae'r llywodraeth hon wedi'i gyflawni yn y tymor hwn. - Mae Taith yn enghraifft berffaith o raglen a gafodd ei chyhoeddi, ei sefydlu, ac sy'n cyflawni yn ystod y tymor Senedd hwn. Amlygodd KW y bydd mwy o aelodau'r Senedd i bleidleisio drostynt yn yr etholiad nesaf yn 2026 gan fydd system etholiadol newydd yng Nghymru. Mae'r rhagolwg yn awgrymu y bydd y blaid llafur yn ei chael yn anoddach cael mwyafrif a bydd yn rhaid iddi greu clymblaid yn y Senedd nesaf. Mae rhagor o ansicrwydd gwleidyddol a byddai partïon yn ceisio alinio a chytuno ar nifer gosodedig o bolisïau yn eu maniffestos. Byddai Plaid Cymru'n awyddus i hyrwyddo rhaglen brand Cymreig o symudedd ieuenctid.	
3.4	Nod y drafodaeth hon oedd: • **Datblygu argymhellion clir y gellir eu gweithredu o'r Bwrdd Cynghori ar sut i feintioli a lledaenu llwyddiant Taith.** • **Tynnu rhai camau gweithredu penodol ar gyfer aelodau'r Bwrdd Cynghori y gellid eu cymryd yn unigol a/neu ar y cyd i gefnogi'r ymdrech hon.** Ystyriwyd y cwestiynau hyn a gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol: **1. Pa feysydd allweddol sy'n gwneud Taith yn unigryw ym maes symudedd addysg rhyngwladol? Sut allwn ni ddefnyddio'r arweinyddiaeth honno?** - Effaith ac eiriolaeth unigryw ym maes symudedd ieuenctid h.y. mae'r rhaglen wedi agor cyfleoedd i bobl iau. - Cyfiawnder a chynhwysiant cymdeithasol, mae'n cyrraedd pobl mae'n bosib na fyddant yn gallu manteisio ar y math hwn o raglen. - Astudiaethau achos a data cryf.	

	- I bwy rydym yn ceisio lleoli Taith yn y dyfodol?
	  - Ei gyllidwr – Llywodraeth Cymru
	  - Rhanddeiliad allweddol h.y. y sector ieuenctid, prifysgolion
	  - Sut mae Taith yn lleoli ei hun heb iddo gael ei weld fel lobïo? Partneru gyda phleidiau gwleidyddol, gweision sifil ac eirioli ar gyfer y rhaglen yn hytrach na lobïo.
	- Diplomyddiaeth feddal – defnyddio dylanwad partneriaethau rhyngwladol, sefydliadau sy'n elwa'n rhyngwladol. Sut mae'r dylanwad hwn yn cael ei adrodd yn ôl at Taith?
	- Gwerthusiad Wavehill o Taith: Mae'n darparu tystiolaeth o effaith y rhaglen a'u cryfderau ac unigrywiaeth o'i chymharu â rhaglenni eraill.
	- Cynhwysiant ac amrywiaeth Taith – gwerth ychwanegol cyrraedd cyfranogwyr heb gynrychiolaeth ddigonol. A yw bod yn rhan o'r rhaglen yn cyfrannu at eu cyflogadwyedd, sgiliau bywyd a sut gallwn ddangos tystiolaeth o hyn?
	  - Gwerthuso'r rhaglen.
	  - Data, gan gynnwys data cyllid.
	  - Straeon personol, fideos.
	  - Canolbwyntio ar yr effaith hirdymor, yr hyn y gallai cyflogwyr ei weld yn ddefnyddiol
	  - Cyfateb â blaenoriaethau gwleidyddol ehangach a sut mae Taith yn eu bodloni, anodd rhagweld hyn ar hyn o bryd.
	  - A yw'n bosibl mesur y gost hirdymor o gefnogi'r rhai heb gynrychiolaeth ddigonol? e.e. effaith newid bywyd taith ar berson ag awtistiaeth a sut mae'n eu helpu, eu newid a'i effaith ar yr economi ehangach.
	  - Gwahodd cefnogwyr/y rhai sydd â dylanwad i weld prosiectau ar waith.
	  - Cysylltu â heriau rhyngwladol ehangach e.e. goblygiadau'r llywodraeth at newid hinsawdd, mudo ac ati. Mae prosiectau Llwybr 2 yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau rhyngwladol hyn ac a all Taith wneud allbynnau prosiectau Llwybr 2 yn fwy gweladwy.
	  - Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol – Mae Taith yn esiampl o fodloni gofynion fel rhan o'r ddeddf hon.	

	- Ystyried sefydliadau addysgol/melinau trafod a allai fod â diddordeb mewn coladu'r effaith yn annibynnol? Mae Taith wedi dechrau trafodaethau gyda rhai sefydliadau y mae'n ymwybodol ohonynt o ran astudiaethau hirhoedledd er enghraifft. **2. Pa strategaethau dylwn ni eu gweithredu i gyfathrebu effaith a gwerth y rhaglen yn effeithiol i benderfynwyr a rhanddeiliaid ehangach? Pa heriau/rhwystrau posib y gellid dod ar eu traws ar hyd y ffordd?** - Mae strategaethau cyfathrebu a data fel yr amlygwyd gan EM ac EB yn y diweddariad Raith yn adran 2.2 uchod yn ymdrin â hyn. - Ystyried cinio rhanddeiliaid, digwyddiad bord gron, digwyddiad trawsbleidiol/llywodraeth i arddangos effaith ddiriaethol y rhaglen, efallai i "lansio'r" adroddiad gwerthuso dros dro. - Sefydliadau ieuenctid/ysgolion uwchradd sydd â pherthnasau hirdymor gyda chyfranogwyr prosiectau. Edrych ar gasglu'r effaith hirdymor ar y disgyblion/pobl ifanc hyn ar effaith ar swyddi/gyrfaoedd. Mae peth data ar gael yn hawdd e.e. astudiaeth achos GISDA yn dangos yr effaith ar un o'i gyfranogwyr. - Siarad â Phrifysgol Caerdydd fel gwesteiwr Taith/ILEP Ltd i weld effaith rhaglen Taith a defnyddio dylanwad yr adnoddau y mae gan Brifysgol Caerdydd fynediad ato, yn enwedig gan ei bod yn cael ei hyrwyddo gan y Rhag Is-ganghellor. Gellir cyfathrebu effaith y rhaglen fel rhan o'u cenhadaeth sifig. - Mae effaith Taith yn aml o gyfryngau cymdeithasol Taith ei hun - ble byddai sefydliadau eraill yn adrodd ar Taith? Mae sefydliadau ieuenctid ac ysgolion yn hyrwyddo Taith ar X. - Cynnal dadansoddiad/ymchwil hydredol ar ddeilliannau academaidd neu gymdeithasol y cyfranogwyr e.e. y rhai ym mlynyddoedd diweddarach ysgol neu brifysgolion. - Gallai Taith ymgorffori gofyniad i bob buddiolwr wneud yr adrodd/cyfathrebu lle bo modd, fel rhan o'r grant neu symudedd. - Allgymorth cyfryngau – cyflwyno'n rhagweithiol i gyfryngau Cymru: Mae Taith yn rhagweithiol wrth gyflwyno i gyfryngau Cymru ond hyd yma nid oes llawer wedi manteisio arno. Bydd yr AB yn ystyried ei rwydweithiau a gweld ble gallai helpu i gyflwyno straeon Taith. **3. Pa ddatrysiadau arloesol eraill sydd i leoli'r rhaglen yn rhagweithiol meintioli, cymhwyso a lledaenu ei effaith a'i lwyddiant?**	Gweithrediaeth Rhaglen Taith

	4. Pa gamau penodol allai pwyllgor y Bwrdd Cynghori eu cymryd (gyda'i gilydd neu'n unigol) i gefnogi'r ymdrech hon? a. Taith i grynhoi sylwadau ac argymhellion o'r cyfarfod hwn a'u rhannu gyda'r Bwrdd Cynghori i roi sylw arnynt. b. Bwrdd Cynghori i wirfoddoli i roi'r argymhellion hyn ar waith/ddarparu'i arbenigedd ar eu cyfer ochr yn ochr â Gweithrediaeth Rhaglen Taith. c. Bwrdd Cynghori i ystyried ei rwydweithiau dylanwad a hyrwyddo'r rhaglen. d. Tîm Taith i greu grŵp Teams ar gyfer y Bwrdd Cynghori er mwyn rhannu syniadau mewn amser real.	Bwrdd Cynghori Bwrdd Cynghori DJ
4	**Unrhyw fater Arall a Dyddiad y cyfarfod nesaf**	
4.1 4.2	Ni chodwyd unrhyw fater arall. Dyddiad y cyfarfod nesaf yw 26 Chwefror 2025.	